**Adroddiad Blynyddol i Rieni – YGG Abercynon**

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gweler isod grynodeb Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gweler isod y canllawiau o ran cynnal cyfarfodydd i drafod yr adroddiad.

Os yw rhieni'n dymuno cyfarfod â'r llywodraethwyr, rhaid i ddeiseb gael ei chyflwyno. Rhaid i'r ddeiseb gynnwys enwau 10% o'r rhieni sydd â phlant ar gofrestr yr ysgol, neu enwau 30 o rieni sydd â phlant ar gofrestr yr ysgol (pa un bynnag yw'r nifer leiaf). Rhaid i'r cyfarfod gael ei gynnal cyn pen 25 diwrnod i'r ddeiseb gael ei derbyn ond bydd modd i'w gynnal dim ond os oes digon o ddiwrnodau ar ôl yn y flwyddyn ysgol ar ei gyfer.

Rydyn ni am atgoffa rhieni nad oes modd trafod materion sydd ddim yn ymwneud â'r ysgol yn y cyfarfod, na materion sy'n bersonol i grŵp unigol.

Os hoffech chi ofyn am gyfarfod, yn unol â'r gofynion uchod, cysylltwch â Janet Jenkins Clerc y Corff Llywodraethu drwy e-bost janet.jenkins@rctcbc.gov.uk neu lythyr i Janet Jenkins, Tŷ Trevithick, Abercynon, Mountain Ash. CF45 4UQ.

Yn gywir,

Lisa Young - Cadeirydd y Corff Llywodraethu

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon**

Mae'r adroddiad yma'n crynhoi'r camau a gymerodd y Corff Llywodraethu i gyflawni'i swyddogaethau ers yr adroddiad diwethaf.

## 1. Clerc y Corff Llywodraethu

Clerc y Corff Llywodraethu yw Mrs Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ.

## 2. Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Cadeirydd y Corff Llywodraethu yw Mrs L Young, d/o Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon, Greenfield Terrace, Abercynon, Mountain Ash CF45 4TH.

## 3. Aelodau o'r corff llywodraethu

Dyma'r rhai sy'n aelodau o'r Corff Llywodraethu ar hyn o bryd:

| Enw | Math o Lywodraethwr | Penodwyd gan | Dyddiad y daw'r swydd i ben |
|---|---|---|---|
| CBC R Lewis<br>2 Swyddi gwag | **Awdurdod Addysg Lleol** | **Aelodau o'r Cyngor** | 31/08/2024 |
| Miss R Parry<br>Mrs M Sanita<br>Mrs L Young<br>Mr T Phillips | **Rhiant** | **Rhieni** | 24/06/2025<br>17/05/2025<br>29/10/2023<br>29/01/2027 |
| Mrs D Meaden<br>2 Swyddi gwag | **Llywodraethwyr Cymunedol** | **Llywodraethwyr** | 24/11/2025 |
| Mrs B Marsh | **Athro/Athrawes** | **Staff Addysgu** | 05/11/2025 |
| Mrs C Mack | **Staff** | **Staff sydd ddim yn addysgu** | 06/10/2023 |
| Mrs E Smith | **Pennaeth** | | |

Pan mae pob rôl wedi'i llenwi, mae'r Corff Llywodraethu'n cynnwys y bobl ganlynol

| | |
|---|---|
| **Cynrychiolwyr ALl** | 3 |
| **Rhieni-lywodraethwyr** | 4 |

| | |
|---|---|
| **Llywodraethwyr Cymunedol** | 3 |
| **Athrawon-lywodraethwyr** | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cynrychiolydd Staff** | 1 | | **Awdurdod llai (os yn gymwys)** | 0 |
| **Pennaeth** | 1 | | **Cyfanswm** | 13 |

**4. Penderfyniadau**

Doedd dim penderfyniadau wedi'u gwneud yn y cyfarfod diwethaf.

**5. Ethol Rhiant-lywodraethwyr**

Mae disgwyl i'r etholiad nesaf ar gyfer rhiant-lywodraethwyr ddigwydd ym mis Hydref 2023.
Fodd bynnag, os bydd unrhyw riant-lywodraethwyr yn ymddiswyddo cyn y dyddiad yma, bydd rhaid trefnu etholiad i benodi rhywun i'r swydd wag.

**6. Data Cyflawniad Ysgol**

Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn darparu gwybodaeth am gynnydd i'r disgyblion. Mae disgyblion blynyddoedd 2 i 6 yn dal i sefyll profion cenedlaethol. Mae eich ysgol yn cyflawni ar lefel boddhaol.

**7. Datganiad Ariannol**

Mae copi o ddatganiad ariannol yr ysgol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 wedi'i amgau yn Atodiad A. Mae modd gwneud cais am esboniad o'r wybodaeth.

**8. Prosbectws yr Ysgol**

Byddwn ni'n adolygu Prosbectws yr Ysgol yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau mae Llywodraeth Cymru neu gyrff perthnasol eraill yn eu mynnu.  Mae copi o’r Prosbectws ar wefan yr ysgol.

Newidiadau i’r Prospectws - staffio a chanllawiau Anghenion Dysgu Ychwanegol

**9. Cynllun Datblygu'r Ysgol**

Aelodau'r Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol (ar y cyd â'r staff). Mae'r cynllun yn nodi'r cyfeiriad y bydd yr ysgol yn ei ddilyn, dros gyfnod o dair blynedd, wrth ddarparu'r cwricwlwm. Caiff y cynllun ei fonitro a'i adolygu'n gyson er mwyn ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud ac unrhyw newidiadau i ofynion y cwricwlwm.

Cafodd Cynllun Datblygu'r Ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023 ei gymeradwyo gan aelodau o'r Corff Llywodraethu. Roedd y targedau a osodwyd yn cynnwys nodau tymor byr, canolig a hir ac roedd y Corff Llywodraethu'n eu hadolygu'n gyson.

Blaenoriaethau - Cynllun Datblygu Ysgol 2022-23

1. Cwricwlwm i Gymru - Parhau i ddatblygu a mireinio'r cynllunio a'r gweithdrefnau asesu
a thracio cynnydd

2. Dysgu ac Addysgu - Datblygu strategaethau addysgu ymhellach er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio a gwneud penderfyniadau am eu dysgu

3. Codi Safonau Llafar

4. Arweinyddiaeth - Parhau i ymwreiddio arweinyddiaeth ar bob lefel

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae'r cwricwlwm yn darparu ar gyfer addysgu a dysgu sydd:

a. yn cwmpasu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad gan gynnwys yr elfennau gorfodol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad
b. yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol

## 10. <u>**Dyddiadau Gwyliau'r Ysgol 2023-2024**</u>

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Gorffen | Rhif yr Ysgol Diwrnodau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | | |
| Tymor yr Hydref 2023 | Dydd Llun 4 Medi 2023 | Dydd Llun 30 Hydref 2023 | Dydd Gwener 3 Tachwedd 2023 | Dydd Gwener 22 Rhagfyr 2023 | 75 |
| Y Gwanwyn 2024 | Dydd Llun 8 Ionawr 2024 | Dydd Llun 12 Chwefror 2024 | Dydd Gwener 16 Chwefror 2024 | Dydd Gwener 22 Mawrth 2024 | 50 |
| Yr Haf 2024 | Dydd Llun 8 Ebrill 2024 | Dydd Llun 24 Mai 2024 | Dydd Gwener 31 Mai 2024 | Dydd Llun 22 Gorffennaf 2024 | 70 |
| | | | | CYFANSWM | **195** |

Bydd dydd Llun 4 Medi 2023 a dydd Llun 22 Gorffennaf 2024 **yn ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer** pob ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Yr ysgolion unigol fydd yn penderfynu ar ddyddiadau'r tri diwrnod HMS arall, yn dilyn ymgynghoriad priodol â staff.

Bydd pob ysgol ar gau **ddydd Llun 6 Mai 2024** oherwydd Gŵyl Banc Calan Mai.

Dyddiadau pwysig:

| | |
|---|---|
| Nadolig | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2023 |
| Y Pasg | Dydd Gwener y Groglith 29 Mawrth 2024<br>Dydd Llun y Pasg 1 Ebrill 2024 |
| Gwyliau Banc Mai | Dydd Llun 6 Mai 2024<br>Dydd Llun 27 Mai 2024 |

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu dyrannu diwrnodau HMS ychwanegol. Bydd yr ysgolion yn cael gwybod am y rhain ar yr adeg briodol.

Mae trefn y diwrnod fel a ganlyn:

**Bore** – 08:50 i 12:00/12:20
**Amser cinio** – 12:00/12:20 i 13:00/13:15
**Prynhawn** – 13:00/13:15 i 15:15

## 11. Ysgolion Bro

Ysgol Bro yw ysgol sy'n darparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau, yn aml y tu hwnt i oriau'r ysgol, er mwyn diwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru, mae nifer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys addysg i oedolion, cefnogaeth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol.

Nid prosiect tymor byr yw datblygu cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned. Mae'n gyfle gwirioneddol i ysgolion a chymunedau gydweithio mewn ffyrdd newydd er budd plant, pobl ifainc ac oedolion.

Yn Ysgol Abercynon, rydym yn gweithio'n agos gyda llawer o wahanol aelodau o'r Gymuned.

Mae'r ysgol yn derbyn ymweliadau cyson gan yr heddlu, nyrs a'r gwasanaeth deintyddol er mwyn cyfoethogi ein cwricwlwm ysgol. Mae gan yr ysgol hefyd gysylltiadau cryf â'r Ganolfan Chwaraeon leol a rhandiroedd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol.

Mae gennym hefyd gysylltiadau cryf ag Urdd Gobaith Cymru.

## 12. Adolygu polisïau'r ysgol

Mae gan yr ysgol nifer o ddogfennau polisi sy'n trafod meysydd y cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Mae'r staff/llywodraethwyr yn adolygu'r rhain yn barhaus ac yn eu diweddaru ar gyfer cynnwys datblygiadau a gofynion deddfau newydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr ysgol neu drwy gysylltu â'r Pennaeth yn ystod oriau'r ysgol.

## 13. <u>Anghenion Dysgu Ychwanegol</u>

Mae crynodeb o Bolisi'r Ysgol ar gyfer Asesu a Darparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel a ganlyn:

Mae polisi'r Ysgol ar gyfer nodi, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyson â gofynion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (a gafodd ei gymeradwyo gan Senedd Cymru ar 23 Mawrth 2021) o dan Adran 4 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol yn cydweithio'n agos â'r holl aelodau eraill o staff i sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn diwallu anghenion y disgyblion, a hynny'n addas i'r rheiny sydd eu hangen.

Mae'r Cydlynydd hefyd yn cysylltu â'r holl aelodau o staff i sicrhau bod cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro a'i asesu'n rheolaidd a bod y disgyblion yn cyrraedd eu potensial.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/2023, derbyniodd 5 o ddisgyblion Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

## 14. <u>Mynediad i Ddisgyblion Anabl</u>

Mae'r Corff Llywodraethu yn effro i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 wrth lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol / Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg, a gweithrediad dyddiol y safle.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu manteisio ar gwricwlwm yr ysgol a gweithgareddau megis clybiau ar ôl ysgol, digwyddiadau chwaraeon/hamdden ac ymweliadau addysgiadol (os ydyn nhw'n dymuno). Mae pob agwedd ar fynediad, gan gynnwys mynediad i wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio.

Mae gan y Sir Gynllun Strategaeth Hygyrchedd ac mae archwiliad wedi ei wneud o safle'r ysgol yn unol â'r strategaeth yma, fel rhan o friff yr Awdurdod, i nodi unrhyw rwystrau posib a gwella mynediad i'r ysgol.

## 15. <u>Cyfansoddiad yr Adeilad a Darpariaeth y Cyfleusterau Toiled</u>

Yn gyffredinol, mae'r adeilad mewn cyflwr da. Mae'r gwaith cynnal a chadw canlynol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Dosbarth awyr agored i flynyddoedd 3-6
Neuadd yr ysgol wedi'i phaentio yn ogystal â'r coridorau amgylchynol a'r grisiau
Gwellwyd y rheiliau ar y ramp y tu allan i'r neuadd
Canopïau newydd wedi'u codi ar iard Blwyddyn 1 a 2
System mynediad newydd i ddosbarth Dewi
Gwaith trydanol newydd i wella cynhwysedd cegin yr ysgol
Canopi newydd ar iard y Gorlan
Gorlan - storfa newydd yn nosbarth Macsen

Cyfleusterau tai bach i ddisgyblion

Mae gan y chwech dosbarth gyda'r disgyblion ieuengaf toiledu o fewn eu dosbarth. Mae dau floc toiled ychwanegol ar gyfer y disgyblion hŷn. Mae pob toiled yn cael ei lanhau bob dydd.

## 16. Gosod targedau

Mae targedau i'r ysgol wedi'u nodi yn Cynllun Datblygu'r Ysgol. Does gan y disgyblion dim targedau erbyn hyn ac maen nhw bellach yn cael eu mesur ar sail cyflawni camau cynnydd.

## 17. Manylion ar faterion Presenoldeb

Presenoldeb yr ysgol yn ystod 2022/23 oedd 90.4%. Y targed ar gyfer 2023/24 yw 91.5%. Mae presenoldeb pob disgybl yn cael ei fonitro'n agos.

## 18. Trefniadau Derbyn/Pontio

Y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol (ar wahân i ysgolion yr Eglwys, lle mai corff llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn) o fewn ffiniau'r Awdurdod. Mae'r trefniadau derbyn disgyblion, felly, yn cael eu gweithredu yn unol â pholisi'r Awdurdod ar dderbyn disgyblion, sydd wedi'i gynnwys yn y llyfryn Dechrau'r Ysgol. Caiff rhieni gopi o'r llyfryn ar ôl llenwi cais am le yn yr ysgol i'w plentyn. Gellir hefyd weld cynnwys y llyfryn hwn ar-lein ar wefan yr Awdurdod.

Bydd disgyblion fel arfer yn aros yn yr ysgol hyd nes iddyn nhw gwblhau blwyddyn 6 ac yna symud i'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol yma'n bwydo Ysgol Gyfun Rhydywaun, ond, gall disgyblion ymgeisio i fynychu unrhyw ysgol uwchradd o'u dewis yn amodol ar gydymffurfio â pholisi derbyn disgyblion yr Awdurdod.

## 19. Plant sy'n gadael

Mae 30 o ddisgyblion wedi gadael yr ysgol i fynychu ysgol gyfun.

## 20. Amcanion a Champau Byd Chwaraeon

Yn ystod 2022-23 bu clybiau ar ôl ysgol pêl-droed, rygbi, criced a phêl rwyd i ddisgyblion bl.5&6. Cafodd un disgybl ei ddewis i garfan rygbi ysgolion

Cwm Cynon ym mis Medi 2022. Ym mis Tachwedd 2023 fe aeth y garfan rygbi i Ŵyl Rygbi Clwstwr Rhydywaun ym Merthyr. Ar ddiwedd mis Chwefror aeth y carfan pêl-droed bechgyn a merched i Aberdâr i gystadlu yn nhwrnamaint Cymoedd Morgannwg yr Urdd, Ym mis Ebrill 2023, bu garfan rygbi'r bechgyn yn cystadlu yn Nhwrnamaint Cymoedd Morgannwg yr Urdd yn Aberdâr. Bu'r merched hefyd yn cystadlu yn y twrnamaint Tag Rygbi. Cystadlodd y garfan pêl-droed am Gwpan Roffi ar ddiwedd mis Ebrill 2023. Llwydodd y garfan i ennill y Darian Roffi. Ar ddechrau mis Rhagfyr 2022, bu'r garfan bêl-rwyd yn cystadlu yn Nhwrnamaint Cymoedd Morgannwg yr Urdd yn Aberdâr. Yn ystod tymor yr haf llwyddodd ein garfan pêl-rwyd i ennill gynghrair pêl-rwyd ysgolion Cwm Cynon. Roedd cyfres o gemau ar ôl ysgol ar brynhawn Iau yng nghanolfan chwaraeon Abercynon - diolch i Mrs Lock a Miss Jones am eu hymroddiad. Cynhaliwyd cyfres o wersi nofio yn nhymor yr haf i ddisgyblion blwyddyn 3-6 ym mhwll nofio Abercynon. Trefnwyd Mabolgampau ar ddiwedd mis Mehefin 2023 ar gaeau'r astroturf yn Abercynon. Aeth Mr Thomas a'r garfan pêl-droed i noson wobrwyo Ysgolion Cwm Cynon i dderbyn tlysau am eu gorchestion. Cafodd tri aelod o dîm rygbi'r ysgol eu dewis ar gyfer carfan dan 11 oed Ysgolion Cwm Cynon ym mis Medi ar gyfer y tymor 2023-24. Rydyn ni wedi cofrestri i gymryd rhan mewn twrnamaint rygbi yr Urdd ar Dachwedd 27ain yn Aberdâr - carfan bechgyn a charfan merched. Rydym hefyd wedi cofrestri i gymryd rhan mewn cyfres o gemau rygbi gyfeillgar Menter Rygbi Pontypridd - bydd gemau ym mis Tachwedd, Ionawr a mis Mawrth yn Nhrefforest Rydym wedi derbyn gwahoddiad gan yr adran chwaraeon yn Ysgol Gyfun Rhydywaun i gymryd rhan mewn gŵyl rygbi ym mis Tachwedd. Bwriad Ysgol Gyfun Rhydywaun yw i mynd a charfan rygbi blwyddyn 6 i gynrychioli ysgolion y clwstwr mewn twrnamaint rygbi saith bob ochr yn Rosslyn Park, Llundain ym mis Mawrth 2024. Mae clwb chwaraeon ar ôl ysgol i ddisgyblion blwyddyn 3-6 ar nos Fawrth gyda Mr Thomas a Mrs Allen a chlwb pêl-rwyd ar ôl ysgol i ddisgyblion blwyddyn 4-6 ar nos Iau gyda Mrs Lock a Miss Jones. Cafodd un disgybl ei ddewis i chwarae i garfan pêl-droed ysgolion RCT. Mae'r carfan 5 bob ochr pêl-droed yn cystadlu yng nghynghrair Ysgolion Cwm Cynon Isaf. Mae gemau wythnosol yn erbyn ysgolion lleol yn y ganolfan chwaraeon bob nos Lun - diolch i Mrs Mack am ofalu am y garfan. Mi fydd y garfan pêl-droed bechgyn a merched yn cystadlu yn nhwrnamaint Cymoedd Morgannwg yr Urdd yn Aberdâr ym mis Chwefror 2024. Fel pob blwyddyn arall bydd y garfan pêl droed yn cystadlu am gwpan Roffi a chwpan Glasbrook yn nhymor y Gwanwyn 2024. Mi fydd y mabolgampau yn cael eu cynnal ym mis Mehefin 2024. Mae Ysgol Gyfun Rhydywaun yn awyddus i drefnu Mabolgampau Clwstwr yn nhymor yr Haf 2024. Bydd gwersi nofio i ddisgyblion blwyddyn 3-6 yn nhymor yr Haf 2024.

## 21. Bwyta'n iach

Yn Ysgol Gymraeg Abercynon rydym yn annog disgyblion i fabwysiadu a chynnal ffordd iach o fyw yn yr ysgol a gartref. Rydym yn hybu bwyta'n iach ar bob cyfle. Gofynnir i ddisgyblion ddod â byrbryd iach i'r ysgol ar gyfer egwyl y bore, lle mae aelodau staff hefyd yn modelu'r ymddygiad hwn trwy fwyta byrbrydau iach ochr yn ochr â'r disgyblion. Yn ystod sesiynau chwarae mae plant y Cyngor Iechyd a Lles yn rhedeg siop ffrwythau i ddisygblion. Yn ystod y dydd caiff disgyblion fynediad i ddŵr yfed ffres o fewn y dosbarth yn ôl yr angen. Darperir llaeth hefyd i ddisgyblion y cyfnod sylfaen bob dydd. Mae

disgyblion sy'n cael cinio ysgol yn cael dewis o ddŵr, llaeth neu sgwash gyda'u prydau. Fel ysgol rydym yn cymryd rhan yn Ionawr Iachus gyda'r nod o gael disgyblion a'u teuluoedd i symud, sy'n anelu at feithrin arferion actif parhaol. Yn ystod tymor yr haf rydym yn hybu bwyta'n iach trwy gynnal wythnos bwyta'n iach lle mae plant yn dysgu am wahanol grwpiau bwyd, eu heffeithiau ar ein corff a hefyd yn cael cyfle i flasu a pharatoi byrbrydau iach. Rhoddir cyfleoedd i'r plant i baratoi a choginio yn Abercegin. Anogir disgyblion i chwarae'n gydweithredol a pharchus gyda'u cyfoedion wrth ddilyn rheolau'r ysgol bob amser. Dethlir llwyddiant bob amser yn ein gwasanaethau, rhoddir hefyd cyfleoedd i ddisgyblion bod yn rhan o'r gwasanaeth ac i helpu gynnal y gwasanaeth. Trefnwyd gwasanaeth gan y Cyngor Iechyd a Lles i'r ysgol gyfan am Bwyta'n Iach ac am Hawliau plant. Byddwn bob amser yn ymdrechu i ysbrydoli perthnasoedd hapus, meithringar a ffyrdd iach o fyw yn ein hysgol. Rydym yn dathlu Llais y Disgybl.

**ATODIAD A**

**YSGOL Gynradd Gymraeg Abercynon**

DATGANIAD ARIANNOL DROS DRO AR GYFER 2022/2023

| **COSTAU GWEITHWYR** | **Cyfanswm sydd wedi'i wario** |
|---|---|
| | |
| COSTAU STAFFIO GAN GYNNWYS COSTAU CYFLENWI | 1,111,004 |
| | |
| **COSTAU'R EIDDO** | |
| GAN GYNNWYS YNNI, GWAITH TRWSIO, GLANHAU, CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH YN YMWNEUD Â'R ADEILAD | 117,923 |
| | |
| **CLUDIANT** | |
| | |
| GAN GYNNWYS YSWIRIANT, TANWYDD, TREULIAU | 0.00 |
| | |
| **NWYDDAU A GWASANAETHAU** | |
| GAN GYNNWYS TRETHI'R PEN, TGCh, CYRSIAU, LLUNGOPÏO, YSWIRIANT STAFF, CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH | 107,878 |
| | |
| **GRANTIAU** | |
| | |
| GRANT GWELLA ADDYSG, GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION, GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION YN Y BLYNYDDOEDD CYNNAR, PDGCLA | -313,043 |
| | |
| **INCWM YCHWANEGOL** | |
| GAN GYNNWYS GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU, AMRYWIOL, HAWLIADAU YSWIRIANT STAFF, | 4,926 |